# ATODLEN 1

Rheoliad 3

## Personau rhagnodedig – paneli apelau cofrestru

**1.**—(1) Person sydd am y tro yn ymwneud ag ymchwiliad o dan adran 125 o'r Ddeddf.

(2) Person sydd am y tro wedi ei benodi'n—

(a) asesydd neu archwiliwr, neu

(b) cynghorydd cyfreithiol neu gynghorydd arall,

i'r panel apelau cofrestru.

**2.**—(1) Pan fo panel apelau cofrestru yn ystyried cais yn unol ag adran 98 neu 99, neu apêl yn unol ag adran 101 o'r Ddeddf, ni chaiff person—

(a) sydd ar unrhyw adeg wedi cael ei benodi i roi ystyriaeth ragarweiniol o dan adran 119 o'r Ddeddf i fater fod yn aelod o'r panel apelau cofrestru yr atgyfeirir cais sy'n ymwneud â'r mater iddo;

(b) sydd ar unrhyw adeg wedi bod yn ymwneud ag ymchwiliad o dan adran 125 o'r Ddeddf mewn perthynas â mater fod yn aelod o banel apelau cofrestru yr atgyfeirir cais sy'n ymwneud â'r mater iddo;

(c) sy'n aelod neu sydd wedi bod yn aelod o banel gorchmynion interim yr oedd ei achos yn ymwneud â mater fod yn aelod o'r panel apelau cofrestru yr atgyfeirir cais neu apêl sy'n ymwneud â'r mater iddo;

(d) a benodir neu sydd wedi cael ei benodi'n—

(i) asesydd neu archwiliwr, neu

(ii) cynghorydd cyfreithiol neu gynghorydd arall,

i banel gorchmynion interim yr oedd ei achos yn ymwneud â mater fod yn aelod o'r panel apelau cofrestru yr atgyfeirir cais neu apêl sy'n ymwneud â'r mater iddo;

(e) sy'n aelod neu sydd wedi bod yn aelod o banel addasrwydd i ymarfer yr oedd ei achos yn ymwneud â mater fod yn aelod o'r panel apelau cofrestru yr atgyfeirir cais sy'n ymwneud â'r mater iddo;

(f) a benodir neu sydd wedi cael ei benodi'n—

(i) asesydd neu archwiliwr, neu

(ii) cynghorydd cyfreithiol neu gynghorydd arall,

i banel addasrwydd i ymarfer yr oedd ei achos yn ymwneud â mater fod yn aelod o'r panel apelau cofrestru yr atgyfeirir cais sy'n ymwneud â'r mater iddo.

(2) Pan fo'r amgylchiadau yn is-baragraff (3) yn gymwys, ni chaiff person sydd ar unrhyw adeg wedi ystyried cwestiwn neu bwynt ar ran corff perthnasol neu sydd wedi dyfarnu ar gwestiwn neu bwynt ar ei ran fod yn aelod o'r panel apelau cofrestru yr atgyfeirir cais neu apêl sy'n ymwneud â'r mater iddo.

(3) Yr amgylchiadau yw—

(a) mae'r cais yn cael ei wneud neu mae'r apêl yn cael ei gwneud gan berson cofrestredig sydd hefyd wedi ei gofrestru â'r corff perthnasol; a

(b) mae'r corff perthnasol wedi ystyried cwestiwn neu bwynt sy'n ymwneud â chofrestriad y person cofrestredig â'r corff hwnnw ac sydd hefyd yn ymwneud â'r mater neu wedi dyfarnu ar gwestiwn neu bwynt o'r fath.